# GWASANAETH CA3

## THEMA: Y BYD O'N CWMPAS

## LLEFARU

Ar gyfer y gwasanaeth hwn bydd angen tua 6 llefarydd, ond gall yr union nifer ddibynnu ar faint o ddisgyblion sydd ar gael i gymryd rhan. Awgrym yn unig felly yw'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ei osod allan – gellir cynnwys mwy neu lai o lefarwyr, gan uno neu wahanu darnau o'r sgript.

## ELFEN GERDDOROL

Mae'n debyg y bydd gan bob ysgol drefn wahanol o gynnwys deunydd cerddorol wrth ymgynnull mewn gwasanaeth neu gyfarfod boreol. Os yw'n arferol dewis emyn o blith taflen emynau'r ysgol, yna gellir dewis un ar thema **byd natur/ diolch am greadigaeth**. Fel arall gellir dewis chwarae neu berfformio elfen gerddorol addas yn ôl dewis yr athro. Mae awgrym arall yn y sgript os yw defnyddio dolen o'r rhyngrwyd yn bosibl yng nghyd-destun yr ysgol.

Llefarydd 1: Ers dechrau'r flwyddyn eleni yng Nghymru a thu hwnt, ry'n ni wedi profi nerth byd natur mewn gwahanol ffyrdd – trwy wyntoedd gwyllt, moroedd tymhestlog, glaw stormus ac afonydd llawn, yn ogystal â heulwen ac arwyddion gwyrddni yn y tir. Cawsom ein hatgoffa pa mor nerthol yw byd natur, a'n bod ni fel pobl yn fach iawn o'n cymharu ag ef. Cawsom ein hatgoffa bod ein bywydau ni ynghlwm wrth fyd natur bob amser, er ein bod weithiau yn anghofio sylwi arno a'i werthfawrogi.

Llefarydd 2: Mae perthynas dyn a natur wedi bod yn thema gyfoethog yng ngwaith artistiaid ym mhob cyfnod. Paentiodd Van Gogh dirluniau o farciau paent cryf i gyfleu cyflwr ei feddwl dryslyd. Cyfansoddodd Stravinsky ddarn cyfoes o'r enw 'The Rite of Spring' a defnyddiodd Mendelssohn atsain y môr gwyllt yn yr Alban i ysbrydoli 'Fingal's Cave.' Ac fe ysgrifennodd Dylan Thomas, y bardd o Gymru, gerddi oedd yn cyfleu pa mor agos roedd e'n teimlo at fyd natur, yn enwedig pan oedd yn sir Gaerfyrddin ar fferm ei fodryb, neu'n crwydro aber afon Taf yn Nhalacharn. Byddai'n troi'n gyson at fanylion o'r byd o'i gwmpas i greu naws ac awyrgylch yn ei ysgrifennu.

Llefarydd 3: Ysgrifennodd am gerdded allan yng ngwynt mis Hydref a dweud fel hyn:
'Especially when the October wind
With frosty fingers punishes my hair,
Caught by the crabbing sun I walk on fire
And cast a shadow upon the land.'

Llefarydd 4: Ysgrifennodd am sut oedd e'n teimlo bod cylch bywyd a marwolaeth byd natur yn gyrru ei fywyd e hefyd, a dywedodd:

'The force that through the green fuse drives the flower
Drives my green age; that blasts the roots of trees
Is my destroyer...'

Llefarydd 5: Ar ei ben-blwydd yn dri deg oed, fel hyn mae'n disgrifio pa mor hyfryd oedd y dydd:
'It was my thirtieth year to heaven.
My birthday began with the water-
birds, and the birds of the winged trees flying my name
above the farms and the white houses,
And I rose
In rainy autumn
And walked abroad in a shower of all my days.'

Llefarydd 6: Yn ei farddoniaeth, gallwn glywed sut mae Dylan Thomas yn sylwi ar fanylion bach y byd o'i gwmpas. Mae'n gwerthfawrogi ei amgylchfyd am ei harddwch, ond hefyd am ei galedwch. Mae'n gwerthfawrogi'r teimlad o fod yn un â chylch naturiol y byd – o'r gwanwyn golau i'r gaeaf tywyll.

Mae pobl yn ein cymdeithas ni sydd siŵr o fod yn teimlo fel hyn yn eu gwaith – ffermwyr, wardeniaid parciau, mynyddwyr a garddwyr, er enghraifft. Ond bydd y rhan fwyaf ohonom efallai'n dueddol o anwybyddu beth sydd o'n cwmpas ac yn methu gweld rhyfeddodau oherwydd hynny.

Llefarydd 1: Mae'n dda cael ein hatgoffa yng ngwaith artistiaid, cerddorion a llenorion am bopeth sy'n arbennig a gwefreiddiol yn ein hamgylchedd. Cafodd y cerddor Ron Hilrip ei ysbrydoli gan y gerdd 'Fern Hill' gan Dylan Thomas i gyfansoddi darn newydd. Mae'n cyfleu'r teimlad gwych a brofodd y bardd o fod allan yn y caeau ar dir fferm ei fodryb yn sir Gaerfyrddin. Gwrandewch ar ran ohono:
http://www.youtube.com/watch?v=ZeBypSlj0-A
(Gellir chwarae rhyw 2 funud i gael naws y darn, gan ostegu'r sain wedyn ar gyfer y Munud i Feddwl sy'n dilyn)

NODYN: Yn y darn yma o'r gwasanaeth, os nad oes modd defnyddio'r ddolen uchod, gellir cael seibiant i ychydig funudau o gerddoriaeth wedi ei hysbrydoli gan fyd natur – er enghraifft 'Fingal's Cave' gan Menedelssohn, 'Vltav'a allan o 'Ma Vlast' gan Smetana neu 'Lark Ascending' gan Vaughan Williams, neu emyn neu eitem gerddorol gan ddisgybl.

## MUNUD I FEDDWL

Llefarydd 2: Gofynnwn heddiw am lygaid craff i weld y byd o'n cwmpas yn ei holl harddwch. Gofynnwn am amynedd i sefyll yn dawel weithiau a rhyfeddu at y darlun mawr o'n blaen. Gofynnwn am lonyddwch i sylwi ar fanylion bach sy'n hawdd eu hanwybyddu. Gofynnwn am y synnwyr i barchu ein hamgylchedd yn ei brydferthwch a'i beryglon. Ry'n ni'n rhan o gylchdro'r byd naturiol hwn, ac wrth ofalu am y byd, ry'n ni'n gofalu am ein hunain a'n cymdeithas hefyd.

Diolchwn am waith creadigol pob un sydd wedi dangos inni rywfaint o ryfeddod y byd o'n cwmpas trwy eu gwaith. Rhannwn eu gwerthfawrogiad nhw'r bore hwn, gan fynd allan i'r dydd yn barod i fwynhau popeth a welwn.